

Dadansoddiad beirniadol o'r berthynas rhwng gwybodaeth pwnc athro a dysgu ac addysgu effeithiol yn yr ysgol gynradd.

Bwriad y traethawd hwn yw i ddatblygu dealltwriaeth fy hyn o bwysigrwydd gwybodaeth pwnc athro/athrawes mewn ysgol gynradd. Byddaf yn dadansoddi'n feirniadol o'r berthynas rhwng gwybodaeth pwnc athro a dysgu ac addysgu effeithiol mewn ysgol gynradd. Byddaf yn son am fy mhrofiad addysgu proffesiynol a byddaf yn cadw cyfrinachedd yr ysgol, y staff a'r disgyblion yn gyfrinachol gan ddilyn canllawiau BERA (2018) sydd yn nodi'r pwysigrwydd cadw gwybodaeth ysgol, staff a disgyblion yn gyfrinachol. Byddaf yn cyfeirio at yr ysgol fel 'Ysgol A'. Yn ystod y traethawd byddaf yn ystyried y llenyddiaeth sydd yn cefnogi'r dylanwad Shulman, ar wybodaeth pwnc athrawon a'r cysylltiad rhwng dysgu ac addysgu effeithiol, ac yn ystyried y safbwyntiau sydd yn anghytuno ar ddylanwad ac sydd yn meddwl fod agweddau dysgu arall yn fwy effeithiol.

Mae'r ysgol wedi'i lleoli ym mhentref lleol Sir Gaerfyrddin ac mae'n darparu addysg ar gyfer plant y pentref a'r ardal gyfagos. Mae'r ysgol yn addysgu plant rhwng 3 ac 11 oed. Ar hyn o bryd mae 98 o ddisgyblion ar y gofrestr, sy'n cynnwys 14 o ddisgyblion oed meithrin amser llawn ac mae'r disgyblion mewn pedwar dosbarth oed cymysg, Estyn (2017). Cymraeg yw iaith bob dydd yr ysgol a phrif gyfrwng y dysgu a'r addysgu. Mae Saesneg yn cael eu haddysgu yn ffurfiol yng nghyfnod allweddol 2. Mae 37% o'r disgyblion yn dod o gartrefi Cymraeg ac ychydig iawn o ddisgyblion sydd o gefndiroedd ethnig. Mae 6% o ddisgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sy'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae 27% o ddisgyblion ar gofrestr anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol, sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol yn ôl Estyn (2017). Yn ystod yr amser yn yr ysgol fe wnes i ddysgu dosbarth cymysg o blant blwyddyn 4 a blwyddyn 5, darganfyddir mwy o wybodaeth bellach ymlaen yn y traethawd.

Ystyried y llenyddiaeth.

Yn ôl Guerriero (2017) mae llenyddiaeth wedi pwysleisio ar yr elfennau sydd yn gwneud athrawon effeithiol, sydd yn cynnwys gwybodaeth pwnc eang, strategaethau datrys problemau effeithiol a pharch tuag at ddysgwyr. Mae llawer o ymchwil yn dangos y

pwysigrwydd i athrawon cael y wybodaeth pwnc eang, yn cynnwys y wybodaeth yma, mae'n hynod o bwysig fod yr athrawon effeithiol yma yn defnyddio'r wybodaeth maent wedi darganfod a datblygu o brofiadau yn y dosbarth. Soniwyd gan University of Northern Iowa (2019) daeth term gwybodaeth cynnwys bedagogaidd o ddylanwadir addysgiadol Shulman (1986) ac o ganlyniad i hyn daeth yr ymwybyddiaeth academaidd newydd ar wybodaeth athrawon a'r pwysigrwydd o'r wybodaeth yma i ddarparu addysgu effeithiol a llwyddiannus.

Soniwyd gan The University of Manchester (2005) fod y term gwybodaeth pwnc yn uwchleuo'r safonau sydd angen ar gyfer ymarfer dysgu ac yn nodi'r disgwyliadau sydd angen ar gyfer derbyn y safonau SAC. Aeth the University of Manchester (2005) ymlaen i awgrymi fod angen i athrawon cael gwybodaeth pwnc sydd yn cysylltu â gwybodaeth bedagogaidd. Mae'r dealltwriaeth o'r cysylltiad rhwng y wybodaeth pwnc ar wybodaeth bedagogaidd yn meddwl y gallu i feddwl am unrhyw gamsyniadau neu heriau a gall codi a sut i unioni er mwyn i'r wers fod yn effeithiol ac yn ddefnyddiol i lwyddiant y dysgwyr. Cytunwyd Shulman (1986) gan nodi fod angen i athrawon deall gwybodaeth pwnc a bod yn hyblyg fel bod y gallu ganddynt i gefnogi dysgwyr i greu dealltwriaeth a mapiau o'u ddatblygiad gwybyddol ar allu i gyfeirio at unrhyw gamsyniadau.

Yn ôl Wheeler (2017) mae gan athrawon rôl bwysig i scaffaldio dysgu dysgwyr. Wrth i athro addysgu rhywbeth newydd, mae disgyblion yn dibynnu'n uniongyrchol ar yr athro i roi gwybodaeth iddynt, ac wrth iddyn nhw ddod yn fwy annibynnol wrth feddwl ac yn datblygu sgiliau a dealltwriaeth newydd mae'r gefnogaeth athro yma yn lleihau. Soniwyd gan Wheeler (2017) daeth damcaniaeth scaffaldio Bruner o ymchwil Vygotsky, lle credir fod plant yn dysgu'n well mewn amgylchedd cymdeithasol. Mae Parth Dyblygiad Procsimol Vygotsky yn cefnogi'r datganiad hyn gan nodi fod plant yn dysgu'n well ym mhresenoldeb person mwy gwybodus, megis athro, cyfoedion ac oedolion dosbarth ychwanegol. Nodwyd Pollard (2008:232) er mwyn scaffaldio datblygiad dysgwyr, mae angen fod yr athro gyda gwybodaeth pwnc a gwybodaeth bedagogaidd effeithiol. Soniwyd gan Kleickmann et al. (2013) mae gwybodaeth pwnc a gwybodaeth cynnwys bedagogaidd wedi'i ymddangos i effeithio ymarfer dysgu athrawon a dysgu disgyblion. Er mwyn llwyddo i ddarganfod sut mae gwybodaeth pwnc yn effeithio dysgu ac addysgu athrawon, mae'n hanfodol i ddeall beth yw'r gwahaniaeth rhwng gwybodaeth cynnwys pwnc a gwybodaeth cynnwys bedagogaidd. Cytunir Shulman

(1992) gan awrgrymi mae'n rhaid i athrawon cael amrywiaeth o wybodaeth ar ddysgu plant, ac mae'n rhaid i athrawon darganfod y cryfderau a gwendidau eu dysgwyr, ar allu i weithio gyda phlant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Yn ogystal â hyn, pwysleisir Shulman. (1986) fod rhaid i athrawon cael ymwybyddiaeth o'r cwricwlwm ac adnoddau er mwy cysylltu dysgwyr gyda ffynhonnell wybodus a rhoi cyfleoedd iddyn nhw arbrofi syniadau, synthesu gwybodaeth a chreu a datrys problemau.

Awgrymir Kleickmann et al. (2013) ystyr gwybodaeth pwnc athrawon yw deall y pwnc sydd yn cael ei addysgu, ac mae'n rhaid i athrawon nid yn unig deall beth yw rhywbeth ond mae'n rhaid deall pam - 'the teacher need not only understand that something is so, the teacher must further understand why it is so' Kleickmann et al. (2013). Awgrymir ym mhellach fod gwybodaeth cynnwys bedagogaidd athrawon yw'r wybodaeth sydd angen i greu strategaethau dysgu effeithiol a'r wybodaeth pwnc yn ddealladwy i'r dysgwyr. Yn ôl Coe et al. (2014) mae'r athrawon mwyaf effeithiol gyda gwybodaeth pwnc manwl o'r pynciau maent yn addysgu, a chredir os bydd lefel y wybodaeth yn disgyn o dan lefel penodol bydd effaith negyddol ar addysg y dysgwyr. Dadlau Alexander, Rose and Woodhead gwelir yn Pollard (2008:233) nid oes cysylltiad amlwg sydd wedi'i brofi rhwng gwybodaeth pwnc a dysgu ac addysgu effeithiol, bodd bynnag, nodir Alexander, Rose and Woodhead gwelir yn Pollard (2008:233) fod gan athrawon rôl hanfodol i scaffaldio gwybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr, ac awgrymir gall hyn digwydd pryd mae gwybodaeth pwnc yr athro o safon dda.

Nodir Coe et al. (2014) yn ogystal i'r wybodaeth pwnc, mae'n rhaid i athrawon effeithiol cael dealltwriaeth ddwys o sut mae'r dysgwyr yn meddwl a'r gallu i werthuso hyn. Anghytunir Zehm a Kotier (1993) gan nodi ymddiriedolaeth yw'r agwedd fwyaf pwysig yn y system addysg. Aeth Zehm a Kotier (1993) ymlaen i awrgrymi mae'r plant angen y perthynas cadarnhaol gyda'r athro i lwyddo yn eu haddysg. Os nad yw'r perthynas yma rhwng yr athro a'r dysgwyr ni fydd dysgwyr yn teimlo'n hyderus i holi cwestiynau, neu ofyn am gymorth ychwanegol os fydd angen, credir Zehm a Kotier (1993) dyma'r agweddau mwyaf pwysig ar gyfer llwyddiant yn fyd addysg. Dadlau Dewey, darllenwyd yn Gray a Macblain (2012) dylid addysg fod yn ganolog i'r plentyn, hynny yw bod diddordebau'r plentyn yn cael eu hystyried wrth gynllunio ac mae methodoleg dysgu yn hyblyg i fod yn addas ar gyfer pob dysgwyr. Soniwyd gan Gray a Macblain (2012) mae hyn yn digwydd pryd mae'r ymddiriedolaeth yma rhwng yr athro ar ddysgwyr. Nodwyd Gray a Macblain (2012) fod yr elfen fwyaf pwysig ar gyfer llwyddiant dysgwyr yn y byd addysg yw profiadau plant, a chredir Dewey fod angen cefnogaeth ar arweiniad er mwyn i'r plentyn cael buddiant o'r profiadau yma. Cytunir Dewey, darllenwyd yn Gray a Macblain (2012: 19) fel llawer o lenyddiaeth fod angen i athrawon cydnabod unigolrwydd pob disgybl, a chredir hyn gan

nodi fod pob plentyn yn ymateb ac yn ymdrin â'r cwricwlwm cenedlaethol yn wahanol ac felly mae angen i athrawon cynllunio'n effeithiol gan wneud yn siŵr i gynllunio yn addas ar gyfer pob disgybl.

Yn ôl Cremin ac Arthur (2014: 14) disgwylir disgyblion i athrawon fod yn ymwybodol o beth maent yn dysgu, ac yn gallu esbonio gwybodaeth yn effeithiol er mwyn gwneud yn siŵr fod pob dysgwyr yn deall. Er mwyn gwneud hyn mae'n rhaid cael dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth bedagogaid fanwl, gall cael dealltwriaeth fras o'r pedagogaid cael effaith negyddol ar ddysgu ac addysgu athrawon cynradd. Cytunir Shulman (1986) gan nodi fod angen i athrawon cael y gallu i ddefnyddio'r wybodaeth pwnc yn effeithiol, a newid mewn i fodd sydd yn addas ac yn effeithiol ar gyfer amrywiaeth o ddisgyblion. Mae'n hanfodol i athrawon effeithiol gallu drosglwyddo'r wybodaeth yma i wneud yn addas ar gyfer y dysgwyr yn eu dosbarth, ac mae hyn yn dechrau o'r cynllunio a pharatoi ar gyfer gwersi. Soniwyd gan Cremin ac Arthur (2014:15) fod hyn yn hanfodol bwysig er mwyn gwneud i'r wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth yn werthfawr i'r dysgwyr. Mae'n rhaid cael dealltwriaeth fanwl o sut mae plant yn dysgu a beth sy'n ysgogi nhw i ddysgu. Er mwyn bod yn athro effeithiol, mae'n rhaid meistroli gwybodaeth cynnwys pwnc, a gwybodaeth ddatblygol y cwricwlwm, Shulman (1987).

Soniwyd gan Hattie (2014) fod yr athrawon rhagorol, gyda gwybodaeth a' dealltwriaeth y pwnc cryf maent yn dysgu, ond dadlau Cremin ac Arthur (2014:25) gan nodi ar un adeg roedd athrawon yn dysgu plant ac nid pynciau, ond erbyn heddiw mae pethau wedi newid lle mae'n rhaid i athrawon cynradd, hyd yn oed athrawon sydd yn gweithio gyda phlant blynyddoedd cynnar, cael dealltwriaeth fanwl o bynciau cwricwlaidd sef, lythrennedd, mathemateg a TGCh. Gyda'r cwricwlwm newydd yn datblygu mae rhaid i athrawon cael gwybodaeth pwnc mewn amryw o bynciau a methodolegau, hynny yw, gwybod sut mae'r disgyblion yn ei dosbarth yn dysgu, gan gymryd mewn i ystyried y ffactorau cymdeithasol a seicolegol a gall dylanwadu ar y dysgu, a defnyddio methodolegau pwrpasol i hybu hyn. Soniwyd gan BERA (2018) bydd rhaid i athrawon cael llawer o hyfforddiant, enwedig y rhai sydd wedi bod yn dysgu am dipyn o amser. Nodwyd BERA (2018) fod yr athrawon arweiniol sydd wedi bod yn gweithio yn yr ysgolion arloesol wedi cael amser i ymchwilio a chymryd rhan mewn trafodaethau colegol, ond gofidiwyd, heb amser neu hyfforddiant ychwanegol, mae'n anodd gweld sut bydd yr athrawon yn integreiddio ei symbyliadau yma mewn i'w dysgu ac addysgu. Bodd bynnag, dadlau WISERD (2019) fod athrawon sydd wedi bod yn addysgu am gyfnod o amser yn pryderi

ddatblygiad yma, a soniwyd fod canran o athrawon Cymru yn anghytuno gyda'r datganiad soniwyd gan y llywodraeth, fod nhw wedi gwrando ar eu safbwyntiau.

The overall standards of four to seven-year-old pupils in Welsh are good.

Most pupils develop an effective spoken vocabulary in a wide range of contexts in the areas of learning, and develop an increasing ability to converse and discuss confidently with their teachers and with each other.

(Estyn: 2013:4)

Nodwyd gan Coe et al. (2014) fod athrawon sydd â gwybodaeth pwnc da, fel arfer yn fwy hyderus wrth addysgu, ac o ganlyniad maent yn arbrofi technegau addysgu amrywiol, gan gynnwys techneg Tacsonomeg gan Bloom. Nodir y dyfyniad uchod y pwysigrwydd o gyfleoedd i drafod yn ddosbarthiadau, ac mae'r dechneg Tacsonomeg gan Bloom yn ddull effeithiol o holi cwestiynau. Yn ôl Pollard (2014:329) cwestiynu yw'r ffordd fwyaf effeithiol i athro asesu dealltwriaeth dysgwyr, a mwyaf pwysig sut gallent wella dealltwriaeth a meddwl y dysgwyr. Dadlau Kyriacou a Issitt (2008) gwelwyd yn Pollard (2014:329) fod defnydd effeithiol o drafodaethau gan athrawon yn gallu arwain at lwyddiant yn addysg dysgwyr, ac mae athrawon sydd yn cwestiynu er mwyn gweld dealltwriaeth a meddwl dysgwyr yw'r athrawon mwyaf effeithiol. Bodd bynnag, mae'n bosib mewn rhai ysgolion, mae cefndiroedd disgyblion mewn rhai ardaloedd yn amrywio, ac o ganlyniad mae cynnydd disgyblion sy'n dod o gartrefi di-gymraeg yn araf.

Dadansoddiad a gwerthusiad o'ch gwybodaeth pwnc ar gyfer addysgu cynradd.

Bydd rhan yma o'r traethawd yn cynnwys dadansoddiad a gwerthusiad o wybodaeth pwnc ar gyfer addysgu cynradd, a fydd yn cynnwys adlewyrchiad o fy nghyfnod cyntaf o brofiad addysgu proffesiynol (PAP).

Yn ystod fy nghyfnod ar ymarfer dysgu, fe wnes i ddysgu dosbarth cymysg o blant blwyddyn 4 a blwyddyn 5, roedd yna 24 o ddisgyblion yn y dosbarth i gyd, gydag 1 cynorthwydd dosbarth a oedd yn gweithio'n 1:1 gyda phlentyn anghenion dysgu ychwanegol, ac awtistiaeth ac roedd hefyd yn gweithio gyda grŵp targed o blant a oedd angen cymorth ychwanegol mewn rhai agweddau yn eu gwaith. Yn ystod y cyfnod, roedd y dosbarth yn astudio thema 'Yr

Ail Ryfel Byd'. Fe wnes i sylweddoli yn syth, nid oedd gwybodaeth pwnc personol yn gadarnhaol, ac o ganlyniad wnaeth fy hyder disgyn. Gydag ymwybyddiaeth fras o gynnwys y pwnc, ac yn defnyddio'r wythnos gyntaf i arsylwi, roedd yn amlwg fod y disgyblion gyda thipyn o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r pwnc felly fe wnes i ddechrau ymchwilio i afael a gwybodaeth hanfodol er mwyn gallu dysgu. Soniwyd gan TES (2014) fod gwybodaeth pwnc cryf yw'r agwedd fwyaf pwysig er mwyn fod yn athro da. Cytunwyd Pollard (2014) fod y cwricwlwm cenedlaethol yn disgwyl disgwyliadau mawr i wybodaeth pwnc athrawon.

Fel y nodir yn uchod, roedd yna blentyn anghenion dysgu ychwanegol, sydd yn awtistig yn fy nosbarth i. Dydw i ddim wedi cael y profiad o weithio gyda phlentyn awtistig, felly roedd rhaid i mi wella fy ngwybodaeth bersonol o'r anghenion yma. Soniwyd gan National Autistic Society (2018) fod mwy nag 1 mewn 100 o blant ar y sbectrwm awtistiaeth, ac mae mwy nag 70% yn mynychu ysgolion prif ffrwd, felly bydd pob athro yn derbyn disgyblion awtistig i'w ddosbarth yn ystod eu gyrfa. O ganlyniad i hyn, pwysleisir National Autistic Society (2018) y pwysigrwydd o athrawon yn deall awtistiaeth a sut i gefnogi pob disgybl yn eu dosbarth.

Providers should ensure that trainees understand that the obligation to set high standards which inspire, motivate and challenge applies to all pupils for whom a teacher has responsibility. This applies regardless of age, ability or aptitude, and includes pupils who might have special educational needs and disabilities (SEND), and pupils for whom English is an additional language (EAL). Providers should equip trainees to be able to inspire and provide extra challenge for the most able pupils.

Comberton Academy Trust (2016)

Rydw i wedi penderfynu adlewyrchu ar wers rhifedd i ddechrau. Gweler atodiad 1 am gynllun gwers. Roedd y wers yma'n cysylltu ag ardal dysgu a phrofiad Rhifedd, Donaldson (2015). Awrgrymir y ddogfen fod yn hanfodol i blant datblygu sgiliau rhifedd a thrin data ac yn defnyddio ac yn datblygu'r sgiliau yma ar draws y cwricwlwm. Mae'r rhain yn bwysig gan ei fod yn paratoi ac yn datblygu sgiliau plant ar gyfer eu dyfodol. Ar y cyfan roedd y wers yn effeithiol gan fod yr athro dosbarth wedi adborth nôl ac yn trafod fod y wers yn effeithiol, ond

wrth adfyfyrio ac adlewyrchu nôl ar y wers ,mae rhai agweddau sydd angen datblygu ymwybyddiaeth.

Soniwyd rhan gyntaf Knowledge Quartet Rowland et al . (2003) bwysigrwydd gwybodaeth pwnc, credau a dealltwriaeth hyfforddai. Trwy gydol fy nghyfnod ar ymarfer dysgu, roeddwn yn pryderu dysgu gwersi mathemateg. Nid ydwyf yn meddwl fy mod yn gryf iawn yn y pwnc yma oherwydd dydw i ddim wedi'i astudio am gyfnod o amser. Soniwyd gan British Council (2015) fod agweddau athrawon tuag at fathemateg yn gallu cael dylanwad enfawr ar agweddau'r dysgwyr tuag at y pwnc. Soniwyd ym mhellach wrth i athrawon ddangos y mwynhad a'r gwerthfawrogiad o fathemateg mae athrawon yn cynhyrchu perthynas cadarnhaol gyda'r pwnc. Soniwyd Donaldson (2015) fod y maes dysgu a phrofiad mathemateg a rhifedd yn canolbwyntio ar ddatblygu dealltwriaeth fanwl o agweddau mathemateg ac i ddatblygu hyder i ddefnyddio'r sgiliau rhifedd yma ar gyfer gweithgareddau pob dydd. Credir Donaldson (2015) fod mathemateg yn helpu plant a phobl ifanc i ddeall y byd o'u hamgylch, a chredir fod mathemateg yn darparu plant gyda'r sgiliau sydd angen i ddehongli a dadansoddi gwybodaeth, datrys problemau a gwneud penderfyniadau gwybodus. Cytunir Donaldson (2015) gyda datganiad y British Council (2015) gan nodi os mae mathemateg yn cael ei addysgu'n effeithiol gan ddefnyddio cyd-destunau perthnasol gall buddio plant a phobl ifanc o bob gallu. Cytunwyd Rowland et al. (2003) gan nodi fod pawb gyda chredydau a dealltwriaeth wahanol o fathemateg ond y ffordd mae dysgwyr yn deal ac yn dysgu mathemateg yw'r peth pwysicaf i hyfforddai deall.

Ail ran o fframwaith Rowland et al. (2003) yw'r trawsnewid. Y trawsnewid o'r wybodaeth pwnc i sut mae unigolyn yn cyflwyno'r wybodaeth. Wrth adfyfyrio nôl ar y wers, hoffwn i ddatblygu sgiliau cyflwyno fy hun. Mae'r rhan yma o'r fframwaith yn pwysleisio ar sut mae athrawon neu hyfforddai yn ymddwyn tuag at ddysgwyr, heb feirniadu a gwneud i ddysgwyr teimlo ei fod yn wahanol. I ddechrau fe wnes i gyflwyniad dosbarth bras, ac wrth edrych nôl dylai wedi gwneud y cyflwyniad yma yn fwy manwl, ac wrth wirio am ddealltwriaeth mae'n rhaid i mi gofio i beidio gofyn 'ydy pawb yn deall' gan fod y dysgwyr yn dueddol o ateb 'ydyn' ond yn lle, gofyn cwestiynau lle mae'r plant gorfod adrodd nôl i ddangos dealltwriaeth. Ar ôl y cyflwyniad dosbarth, gofynnais i'r grŵp MAT i ddod o amgylch bwrdd er mwyn cyflwyno'u dasg iddyn nhw. Wnaeth fy nhiwtor adborth nol gan ddweud fod hyn yn effeithiol ond i

ganolbwyntio ar wella cyflwyniad dosbarth yn gyffredinol. Yn ystod y wers, fe wnes i sylweddoli fod gwallau yn y daflen cwestiynau fe wnes i paratoi ar gyfer y gwers, ac o ganlyniad, nid oedd y cwestiynau yn gwneud synnwyr a roedd bron yn amhosib i'r ddisgyblion cwblhau'r cwestiwn, yn ystod y gwers fe wnes i cael sylw'r dosbarth ac esbonio'r cwestiwn er mwyn i'r cwestiwn gwneud synwyr. Cytunwyd Shulmam (1986) gan nodi mae angen i athrawon cael y gallu i drawsnewid y wybodaeth yn effeithiol er mwyn i'r dysgwyr llwyddo. Ar ôl y wers, trafodwyd gyda fy nhwtor a thrafodon ni'r gwallau yma, ar effaith gall hyn cael ar ddysgu'r plant. Soniwyd gan Alexander et al. (1992) mae'r wybodaeth cynnwys yn bwysig i bob agwedd o addysgu yn cynnwys cynllunio a pharatoi. Cytunir Zahorik (1970) gan awrgrymi fod cynllunio trylwyr ar gyfer gwers yn gwneud dysgu ac addysgu athrawon yn werthfawr ac yn gynhyrchiol, ac mae cynllunio'n fras neu ddim yn cynllunio o gwbl yn arwain tuag at wers amhwrpasol, ac yn cael effaith negyddol ar addysgu disgyblion.

Nodir rhan 3 o fframwaith Rowland et al. (2003) yw'r cysylltu. Yn ystod yr wythnos flaenorol, roedd y dysgwyr yn ffocysu ar rannu a lluosu gyda 10 a 100. Gofynion y dasg adfyfyriaf arno yw gweithio allan y pellter rhwng gwledydd ac yna darganfod yr amser roedd yn cymryd i Sion Corn cyrraedd un wlad i'r llall. Er mwyn gweithio hyn allan roedd rhaid i'r plant defnyddio'r wybodaeth fod Sion Corn yn teithio 100 milltir mewn 4 munud ac yn defnyddio'r fformiwla : $\text{Amser} = \text{pellter i deithio} \div \text{cyflymder mewn 4 munud} \times 4 = \text{i lwyddo yn y dasg}$. Felly roedd y dasg yma yn ddilyniant o'r ffocws blaenorol ond tipyn mwy heriol er mwyn datblygu dealltwriaeth. Soniwyd gan Hampshire College (2000) mae dysgu newydd yn cael ei adeiladu gan ddefnyddio gwybodaeth flaenorol, ar fwyaf ymwybodol yw athrawon i sut mae dysgwyr yn meddwl, y mwyaf tebygol yw'r dysgwyr i lwyddo ac i ddysgu'n effeithiol ac yn llai tebygol i wneud camsyniadau. Gan fod y dysgwyr wedi llwyddo i ddeall y broses o rannu a lluosu a 10 a 100, roedd y dysgwyr wedi llwyddo i ddeall gofynion y dasg yma gan gofio'r proses mae rhaid cymryd i ddarganfod yr ateb cywir.

Rhan olaf y fframwaith yw'r cynllun wrth gefn, hynny yw deall fod yna rhai agweddau o ddigwyddiadau dosbarth sydd yn amhosib cynllunio ar gyfer. Fel y nodwyd uchod, mae'n rhaid i mi ddatblygu gwybodaeth am gyflwyniadau. Fe wnes i gynllunio'n fanwl ond wrth esbonio'r dasg codwyd cwestiynau ni chynlluniais ar gyfer. Achos hyn, roeddwn yn pryderi fod y disgyblion ddim wedi cael cyflwyniad effeithiol a phrinder gwybodaeth. Ar ddiwedd y

sesiwn, esboniodd fy nhiwtor fod pethau fel hyn yn digwydd ac nid oes un rhywbeth gallwn wneud i'w osgoi. Cytunwyd gan DES (2018) gan nodi fod rhai technegau dysgu yn gweithio a dydi rhai ddim yn gweithio, ond mae addysgu treial a gwall yn effeithiol i ddysgwyr. Noda TES (2018) fod gwahaniaethu technegau ac yn gwneud yn siŵr ei fod yn werthfawr i'r dysgwyr ac mae'n bwysig gofyn, beth sy'n gweithio i chi?

Wrth gymryd mewn i ystyried yr holl bethau trafodwyd sy'n effeithio ar addysg plant, mae'n angen ystyried rôl rhieni. Soniwyd gan Estyn (2019) mae cefnogaeth gan rieni yn gallu cael effaith effeithiol ar lwyddiant dysgwyr. Cytunwyd Llwyodraeth Cymru gyda'r datganiad yma, a chyhoeddwyd deunydd i ysgolion, 'Family and Community Engagement toolkit' yn 2015. Bodd bynnag, soniwyd gan Estyn (2019) fod ysgolion yn dueddol o drafod gydag un rhiant, fel arfer y fam, ac mae gormod o ysgolion yn ymglymu mam a dad yn gyfartal. Yn ystod fy nghyfnod yn ysgol A rad yn amlwg i weld pa rieni oedd yn cyd-weithio gyda'r ysgol a'r rhai oedd ddim, ac roedd yn amlwg i weld yr effaith roedd yn cael ar y plentyn.

Casgliad.

I ddod i gasgliad, mae'n rhwydd gweld fod gwybodaeth pwnc athro yn cael effaith mawr ar addysg plant. Bydd athro dosbarth yn defnyddio profiadau blaenorol i ddatblygu addysgu er mwyn gwneud yn effeithiol ar gyfer eu dysgwyr. Fel soniwyd yn rhan gyntaf y traethawd, mae'r athrawon sydd â gwybodaeth pwnc a gwybodaeth bedagogaid dda, fel arfer yn athrawon rhagorol ac yn fwy hyderus wrth arbrofi technegau dysgu amrywiol, mae hyn yn rhoi ysbrydoliaeth i mi i wella fy ngwybodaeth pwnc yn barod ar gyfer fy swydd addysgu cyntaf. Mae'r llenyddiaeth a ddarllenwyd i gwblhau'r ymchwili wedi cryfhau gwybodaeth bersonol i am bwysigrwydd gwybodaeth pwnc ar bwysigrwydd deall gwybodaeth bedagogaid. Mae angen i athrawon a hyfforddai bod yn ymwybodol o anghenion pob disgybl yn y dosbarth a gwybod sut i ddarparu addysg iddynt i'w potensial llawn. Mae angen i mi barhau i ddatblygu fy ngwybodaeth pwnc cyffredinol a chadw ymchwilio ar ddulliau effeithiol i addysgu'r pynciau yma.

Mae Estyn yn pwysleisio'r effaith mae cyd weithredu rhwng athrawon a rhieni ond, mae darganfyddai ganddyn nhw i wella'r cydweithrediad yma, un ohonyn nhw yw gwella systemau

1301530

cyfathrebu er mwyn cysylltu'n well â rhieni, yn enwedig tadau, ac i wneud yn siŵr fod adroddiadau a nosweithu rhieni yn ffocysu ar gryfderau plentyn ac ardaloedd sydd angen datblygiad. Mae'r ymchwil yma wedi gwella fy ngwybodaeth ar sut i gyd weithio â rhieni, a bydd profiadau dyfodol yn parhau i ddatblygu fy ngwybodaeth pwnc yn y maes yma.

Atodiad 1.

Canolfan Addysg Athrawon De-Orllewin Cymru  The South West Wales Centre of Teacher Education		1B
Cynllun Sesiwn – Cyfnod Allweddol 2		
Enw'r hyfforddai: Aimee McAndrew		Cyfeirnod Sesiwn: 11.12.18
Targed(au) personol o ran SAC:		

Grŵp blwyddyn: 4 & 5		Nifer y dysgwyr: 24		ADY(ALN): 2	
Oedolion ychwanegol:		1			
Nod(au) dysgu:			Meini prawf llwyddiant:		
I ddarllen a ddefnyddio map i gweithio allan y filltiroedd mae Sion Corn yn teithio.			I gwblhau'r cwestiynau yn gywir		
			I ddarllen y wybodaeth sydd ar y map		
			I weithio allan faint o filltiroedd sydd rhwng gwledydd penodol.		
Cysylltiadau â dysgu blaenorol: Astudio Nadolig o gwmpas y byd.					
Ymdriniaeth o'r cwricwlwm (ystod, sgiliau) Cyflwyno data trwy defnyddio map					
Llythrennedd(FfLIRh)			Rhifedd(FfLIRh)		
			- Darllen ac ysgrifennu rhifau hyd at 10,000 - Cyflwyno data trwy defnyddio map wedi'u labeli.		
FfCD Defnyddio'r B.G.Rh I gynorthwyo		Meddwl Ysgogi sgiliau gwybodaeth a dealltwriaeth		ADCDF	
				YCC	
Geirfa Allweddol(Cymraeg/Saesneg):					
Amser	Gweithgareddau, trefnu a rheoli'r sesiwn			Cwestiynau allweddol / Asesu ar gyfer dysgu	
	Cyflwyniad			Beth yw'r pellter rhwng...	
	Cyflwyniad dosbarth cyfan i drafod gofynion y dasg. Esbonio fod ganddynt fap o'r byd sy'n dangos y milltiroedd rhwng gwledydd gwahanol. - Bydd hyn yn cael ei ddangos ar y B.G.Rh gan gwestiynu disgyblion wrth ddewis ar hap gan ddefnyddio ffin loli.				
	Prif weithgareddau				
	Dysgwyr i ddefnyddio map o'r byd i ateb cwestiynau am y pellter mae Sion Corn yn teithio. Dysgwyr i ddefnyddio'r wybodaeth sydd ganddynt i ateb yn gywir gan ddefnyddio'r unedau mesur cywir. E.e Milltiroedd (m).				

	ADY. Dysgwyr i ateb cwestiynau ar y pellter rhwng gwledydd yn uniongyrchol a thrwy wledydd arall. Canolig. Dysgwyr i ateb cwestiynau ar y pellter rhwng gwledydd yn uniongyrchol a thrwy wledydd arall. ac i ateb cwestion ymestynnol ar yr amser mae'n cymryd. MAT. Dysgwyr i ateb cwestiynau ar yr amser mae'n cymryd i deithio o un wlad i'r llall ac yn uniongyrchol a thrwy wledydd eraill gan ddefnyddio'r fformiwla : Amser = pellter i deithio ÷ cyflymder mewn 4 munud × 4 =	Pa uned mesur byddwn yn defnyddio i fesur y pellter rhwng y gwledydd? - Milltiroedd (m)
	Diwedd glo Dysgwyr i ddewis 3 wlad i deithio o'r Deyrnas Unedig. Bydd rhaid iddyn nhw weithio allan y pellter mewn milltiroedd (ADY) (Canolig) neu'r Amser a fydd yn cymryd mewn munudau. (MAT)	

Alexander, R, E. Et al. (1992) *Approaches to Planning: Introducing Current Planning Theories, Concepts, and Issues*. Gordon and Breach Publishers.

BERA. (2018). *Ethical Guidelines for Educational Research* Ar gael o: <https://www.bera.ac.uk/wp-content/uploads/2018/06/BERA-Ethical-Guidelines-for-Educational-Research-4thEdn-2018.pdf?noredirect=1> [Darllenwyd 24ain o Ragfyr 2018].

BERA. (2018). *Hopes and fears: The development of a new curriculum in Wales*. Ar gael o : <https://www.bera.ac.uk/blog/hopes-and-fears-the-development-of-a-new-curriculum-in-wales> [Darllenwyd 6ed o Ionawr 2019].

British Council. (2015). *How can teachers help students overcome their fear of maths*. Ar gael o: <https://www.britishcouncil.org/voices-magazine/how-can-teachers-help-students-overcome-their-fear-maths> [Darllenwyd: 5ed o Ionawr 2019].

Coe, R. Et al. (2014) *What Makes Great Teaching?* Ar gael o: <https://www.suttontrust.com/wp-content/uploads/2014/10/What-Makes-Great-Teaching-REPORT.pdf> [Darllenwyd 5ed o Ionawr 2019].

Comberton Academy Trust. (2016) '*A framework of core content for initial teacher training (ITT)*' Ar gael o: <http://www.rss.org.uk/Images/PDF/influencing-change/2016/Framework-Report-11-July-2016-Final.pdf> [Darllenwyd 6ed o Ionawr 2019].

Cremin, T. a Arthur, J. (2014) *Learning to Teach in the Primary School*. Efrog Newydd: Routledge.

Donaldson, G. (2018) *Dyfodol Llwyddiannus* Ar gael o: <https://gov.wales/docs/dcells/publications/150225-successful-futures-cy.pdf> [Darllenwyd ar 2il o Ionawr 2019].

Estyn. (2013). *Cymraeg yn y Cyfnod Sylfaen Datblygu Cymraeg fel iaith gyntaf mewn ysgolion cynradd a'r sector nas cynhelir*. Ar gael o: <https://www.estyn.llyw.cymru/sites/default/files/documents/Cymraeg%20yn%20y%20Cyfnod%20Sylfaen%3A%20Datblygu%20Cymraeg%20fel%20iaith%20gyntaf%20mewn%20ysgolion%20cynradd%20a%20sector%20nas%20cynhelir.pdf> [Darllenwyd: 5ed o Ionawr 2019].

Estyn. (2017). *Adroddiad ar* [REDACTED]. Ar gael o:

[REDACTED]
[REDACTED]

Gray, C. a Macblain, S. (2012) *Learning Theories in Childhood*. Llundain: SAGE Publications.

Guerriero, S. (Ed.) (2017). *Pedagogical Knowledge and the Changing Nature of the Teaching Profession*. Paris: OECD Publishing.

Hampshire College. (2000)m 'The importance of engaging prior knowledge' Ar gael o: <https://sites.hampshire.edu/ctl/2017/09/14/the-importance-of-engaging-prior-knowledge/> [Darllenwyd 8fed o Ionawr 2019].

Hattie, J. (2012) *Visible Learning for Teachers, Maximizing Impact on Learning*. Efrog Newydd: Routledge.

John A. Zahorik, "The Effect of Planning on Teaching," The Elementary School Journal 71, no. 3 (Dec., 1970): 143-151.

Kleickmann, T. et al. (2013). 'Teachers' Content Knowledge and Pedagogical Content Knowledge: The Role of Structural Differences in Teacher Education' Journal of Teacher Education, 64 (1) 90-106.

Kyriacou C, Issitt J (2008) What characterises effective teacher-initiated teacher-pupil dialogue to promote conceptual understanding in mathematics lessons in England in Key Stages 2 and 3: a systematic review. Technical report. In: Research Evidence in Education Library. London: EPPI-Centre, Social Science Research Unit, Institute of Education, University of London.

National Autistic Society. (2018). Back to school: *What teachers need to know about autism*. Ar gael o: <https://www.autism.org.uk/get-involved/media-centre/news/2018-08-29-teacher-training.aspx> [Darllenwyd: 7fed o Ionawr 2019].

Pollard, A. (2008) *Reflective Teaching: Evidence informed Professional Practice*. Llundain: Continuum International Publishing Group.

Pollard, A. (2014) *Reflective Teaching in schools*. Llundain: Bloomsbury Academic.

Rowland, et al. (2003) 'The Knowledge Quartet'. Proceedings of the British Society for Research into Learning Mathematics, 23 t.97-98.

Shulman, L. S. (1986). 'Those Who Understand: Knowledge Growth in Teaching' Educational Researcher, Vol. 15, No. 2. (Feb., 1986), pp. 4-14.

TES. (2018) *Does good subject knowledge make you a good teacher?* Ar gael o: <https://www.tes.com/news/does-good-subject-knowledge-make-you-good-teacher> [Darllenwyd 6ed o Ionawr 2019].

The University of Manchester. (2015) '*Subject Knowledge and Pedagogical Knowledge*' Ar gael o: <http://www.maths.manchester.ac.uk/~avb/pdf/DougFrenchSubjectKnowledge.pdf> [Darllenwyd 2il o Ionawr 2019].

University of Northenlowa. (2019). *Teacher's In-Depth Content Knowledge*. Ar gael o: <https://intime.uni.edu/teachers-depth-content-knowledge> [Darllenwyd: 12fed o Ragfyr 2018].

Wheeler, S. (2017) *Learning Theories: Jerome Bruner On The Scaffolding of Learning*. Ar gael o: <https://www.teachthought.com/learning/learning-theories-jerome-bruner-scaffolding-learning/> [Darllenwyd: 2il o Ionawr 2019].

WISERD. (2019). *Teachers in Wales*. Ar gael o: <https://wiserd.ac.uk/news/teachers-wales> [Darllenwyd 8fed o Ionawr 2019].

